YSGOL GYMREAG YSTALYFERA-BRO DUR

Polisi Cyfle Cyfartal

Athro Dynodedig Diogelu Ystalyfera (Uwchradd):	Mrs Delyth Spurway
Dirprwy ADD Ystalyfera (Uwchradd):	Mr Emyr Evans / Mrs Rachel Thomas
Athro Dynodedig Diogelu Ystalyfera (Cynradd):	Mrs Angharad Lloyd
Dan arweiniad Mrs Delyth Spurway	
Dirprwy ADD Ystalyfera (Cynradd):	Robert Colwell
Athro Dynodedig Diogelu Bro Dur:	Miss Kath Jones
Dirprwy ADD Bro Dur:	Miss Sioned Jones / Mrs Gwenllian Dooher
Llywodraethwr Dynodedig Diogelu:	Ms Kerys Thomas

Cymeradwywyd gan y Llywodraethwyr 2018

Llofnod (Cadeirydd y Llywodraethwyr): Ionawr 2018

Adolygwyd gan y Llywodraethwyr:

Llofnod (Cadeirydd y Llywodraethwyr): Ionawr 2022

Llofnod (Cadeirydd y Llywodraethwyr): Tachwedd 2022

Llofnod (Cadeirydd y Llywodraethwyr): Tachwedd 2023

POLISI CYFLE CYFARTAL

1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r ysgol yn ymrwymedig i'r angen i ddileu gwahaniaethu anghyfreithiol a hefyd i hybu cydraddoldeb ar gyfer disgyblion, staff ac eraill sy'n defnyddio cyfleusterau'r ysgol.

1.2 Mae'r ysgol wedi ymrwymo i roi pob cyfle i bob disgybl gyflawni'r safonau uchaf trwy:

- gymryd i ystyriaeth eu profiadau a'u hanghenion amrywiol;
- cynnig cwricwlwm eang a chytbwys;
- bod â disgwyliadau uchel o bob disgybl.

1.3 Mae'r ysgol yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth gyfredol ynghylch gwahaniaethu annheg ac ynghylch hybu'r arfer orau o ran cydraddoldeb triniaeth. Mae'r polisi hwn yn unol â'r ddeddfwriaeth ganlynol:

- Cynllun Cydraddoldeb Rhyw 2007
- Deddf Cydraddoldeb 2006
- Rheoliadau Cydraddoldeb Cyflogaeth (Oedran) 2006
- Deddfau Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 a 2005
- Rheoliadau Cydraddoldeb Cyflogaeth (Crefydd neu Gred) 2003
- Rheoliadau Cydraddoldeb Cyflogaeth (Tueddfryd Rhywiol) 2003
- Deddf Anghenion Addysg Arbennig ac Anabledd
- Deddf Cysylltiadau Hiliol 2000
- Rheoliadau Gwahaniaethu ar Sail Rhyw (Ailbennu Rhywedd) 1999
- Deddf Hawliau Dynol 1998
- Deddf yr Iaith Gymraeg 1993
- Deddfau Gwahaniaethu ar Sail Rhyw 1975 a 1986

1.4 Dylid darllen y polisi hwn law yn llaw â'r polisïau ysgol canlynol:

- Polisi Diogelu Plant
- Polisi Gwrth Fwlio
- Polisi Clod ac Ymddygiad Cadarnhaol
- Polisi Cydraddoldeb Hiliol
- Polisi Gwisg Ysgol
- Polisi Addysg Rhyw a Pherthnasoedd
- Polisi Anghenion Addysg Arbennig

.

2. Nodau ac Amcanion

2.1 Nid yw'r ysgol yn gwahaniaethu yn erbyn unrhyw un yn anghyfreithlon, p'un ai'n ddisgybl, rhiant, staff neu'n ymwelydd, ar sail rhyw, hil, lliw, cenedligrwydd, tarddiad ethnig neu genedlaethol, anabledd, tueddfryd rhywiol, crefydd neu gred neu oedran.

2.2 Mae'r ysgol yn hybu egwyddorion tegwch a chyfiawnder i bawb trwy'r addysg y mae'n ei darparu yn yr ysgol.

2.3 Mae'r ysgol yn ceisio sicrhau, pryd bynnag fo hynny'n bosibl, bod gan bob disgybl fynediad hafal i'r amrediad llawn o gyfleoedd addysgol a ddarperir gan yr ysgol.

2.4 Ymdrecha'r ysgol i adnabod yn gyson a chael gwared ag unrhyw ffurfiau ar wahaniaethu anuniongyrchol a all ffurfio rhwystrau rhag dysgu i rai grwpiau trwy asesu'n rheolaidd effaith ei pholisïau, ei harferion a'i chanllawiau.

2.5 Mae'r ysgol yn sicrhau bod cyfleoedd recriwtio, cyflogi, hybu a datblygu yn hygyrch i bawb.

2.6 Mae'r ysgol yn herio rhagfarn bersonol a safbwyntiau stereoteip pryd bynnag y byddant yn digwydd. Mae'r ysgol yn ymwybodol bod rhagfarn a stereoteipio yn medru cael eu hachosi gan gamsyniad a chan anwybodaeth. Trwy brofiadau addysgol positif, a chefnogaeth i safbwynt pob unigolyn, mae'r ysgol yn ceisio hybu agweddau cymdeithasol positif a pharch i bawb.

2.7 Mae'r ysgol yn gwerthfawrogi pob disgybl, gan ddathlu unigolrwydd pobl a hefyd amrywiaeth diwylliannol y gymuned sydd wedi'i chanoli yn yr ysgol ac yn dangos parch at bawb.

2.8 Mae'r ysgol a'i staff yn ymdrechu i fod yn rhagweithiol wrth daclo rhagfarn a gwahaniaethau anghyfreithiol.

3. Cyfleoedd Cyfartal wrth Recriwtio

3.1.1 Mae gweithdrefnau ac arferion recriwtio a dewis yn cael eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau nad yw unrhyw grŵp yn cael ei roi dan anfantais naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.

3.2 Yn unol ag ysbryd y datganiad polisi hwn, rhoddir cyfle cyfartal i weithwyr cyflogedig i symud ymlaen o fewn y sefydliad.

3.3 Nod y polisi hwn yw sicrhau na wahaniaethir yn erbyn unrhyw ymgeisydd am swydd neu weithiwr cyflogedig ar sail rhyw, hil, lliw, cenedligrwydd, tarddiad ethnig neu genedlaethol, anabledd, tueddfryd rhywiol, crefydd neu gred neu oedran, ac na chaiff anfantais trwy amodau neu ofynion na ellir dangos bod cyfiawnhad iddynt.

4 Cyfleoedd Cyfartal yn y Cwricwlwm

4.1 Mae gan bob disgybl hawl gyfartal i Cwricwlwm i Gymru / Cwricwlwm Cenedlaethol ac, yn ddibynnol ar ofynion mynediad, i'r holl ardaloedd eraill o'r cwricwlwm, beth bynnag fo'i iaith, rhyw, hil, lliw, cenedligrwydd, tarddiad ethnig neu genedlaethol, anabledd, tueddfryd rhywiol, crefydd neu gred neu oedran.

4.2 Dylai disgyblion gael mynediad hafal i'r cwricwlwm beth bynnag fo'u gallu academaidd. O ganlyniad, dylid darllen y polisi hwn law yn llaw â'r Polisi Anghenion Addysg Arbennig.

4.3 Bydd staff yn gweithredol annog dileu unrhyw stereoteipio rhywiol traddodiadol ynghylch dewisiadau pynciol. Mae hyn yn arbennig o bwysig wrth gwnsela ar gyfer cyrsiau Cam Allweddol 4 a Cham Allweddol 5.

4.4 Bydd yr ysgol yn monitro unrhyw gyngor gyrfaoedd neu leoliadau profiad gwaith a ddarperir gan asiantaethau allanol i geisio sicrhau cyfle cyfartal.

4.5 Bydd pob ffurf ar gefnogaeth unigol a phynciol, arweiniad, mwynderau a chyfleusterau, gan gynnwys gweithgareddau allgwricwlaidd, ar gael yn gyfartal i ddisgyblion o'r ddau ryw.

4.6 Bydd disgwyliadau ymddygiad a chosbau disgyblu yn rhydd o unrhyw duedd rhyw, hil neu ddiwylliant.

4.7 Bydd athrawon yn asesu'r holl ddefnyddiau ac adnoddau a ddefnyddir ar gyfer dysgu ac yn gweithredu'n briodol pryd bynnag fo hynny'n bosibl i sicrhau eu bod yn adlewyrchu cysyniadau, themâu a gwybodaeth sy'n ceisio dileu rhagfarn, hiliaeth a gwahaniaethu. Dylai athrawon geisio sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn teimlo bod eu hiaith a'u diwylliant yn cael eu cydnabod a hefyd eu gwerthfawrogi.

4.8 Mae'r ysgol yn gweithredol annog ethos lle mae pob disgybl yn teimlo'n ddiogel ac yn werthfawr. Darperir manylion o Bolisi Gwarchod Plant yr ysgol yn Atodiad 1 a darperir gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer ymateb i ddigwyddiadau hiliol yn Atodiad 2.

5 Hil / Ethnigrwydd

5.1 Bydd yr ysgol yn:

- ymdrechu i ddileu pob ffurf ar hiliaeth a gwahaniaethu hiliol;
- hybu cydraddoldeb cyfle;
- hybu perthnasoedd da rhwng pobl o wahanol grwpiau hiliol ac ethnig.

5.2 Ni fydd yr ysgol yn goddef unrhyw ffurf ar hiliaeth nac ymddygiad hiliol. Petai digwyddiad hiliol yn digwydd, ymdrinnir ag ef yn unol â gweithdrefnau'r ysgol (gweler polisïau ar gyfer Cydraddoldeb Hiliol ac/neu Ymddygiad) a gwneud adroddiad amdano i Wasanaeth Ysgolion a Chynhwysiad yr Awdurdod (gw. Atodiad 2).

5.3 Ymdrecha'r ysgol i fod yn groesawgar i bob grŵp lleiafrifol. Hybir dathlu a dealltwriaeth o amrywiaeth diwylliannol trwy'r testunau a astudir gan y disgyblion ac fe'i adlewyrchir mewn arddangosfeydd, adnoddau a digwyddiadau.

5.4 Dethlir amrywiaeth diwylliannol a pharch at eraill a'u hadlewyrchu ar draws y cwricwlwm cyfan. Bydd y cwricwlwm yn gwella dealltwriaeth disgyblion o gymdeithas Cymru, Prydain a'r byd, a hanes, gan gynnwys cyfraniadau grwpiau ethnig lleiafrifol.

5.5 Bydd yr ysgol yn rhoi i ddisgyblion y ddealltwriaeth y maent ei hangen er mwyn adnabod rhagfarn a gwrthod gwahaniaethu hiliol.

6 Rhyw [gw. hefyd 4.3]

6.1 Bydd yr ysgol yn parhaol archwilio'i chwricwlwm, gweithdrefnau a defnyddiau ar gyfer gogwydd o ran rhyw neu anghydraddoldeb, yn enwedig mewn perthynas â disgwyliadau ac ymddygiad merched.

6.2 Bydd yr ysgol yn annog disgyblion i fod yn ymwybodol o'r stereoteipiau llym a gyflwynir gan, er enghraifft, y cyfryngau a bydd yn ceisio sicrhau bod adnoddau yn cynnwys llyfrau anrhywiaethol sy'n rhoi gwerth ar gyraeddiadau merched a dynion.

6.3 Mae'r ysgol wedi ymrwymo i ddarparu cwricwlwm sy'n osgoi amrywiadau rhyw hanesyddol diangen. Mae'r holl ddisgyblion yn cael profiad o bynciau a ystyriwyd yn draddodiadol fel bod yn addas ar gyfer un rhyw yn unig e.e. rygbi, pêl-rwyd, coginio, gwaith coed ayyb.

6.4 Ceisia'r ysgol sicrhau:

- bod athrawon yn dyrannu eu hamser yn deg rhwng y rhywiau;
- bod pob disgybl yn cael cyfleoedd i weithio gyda disgyblion o'r ddau ryw;
- bod y stereoteipiau rhywiol traddodiadol yn cael eu torri i lawr, er enghraifft trwy beidio gofyn i fechgyn symud dodrefn tra bod merched yn tacluso;
- bod disgyblion yn cael cyfleoedd i archwilio eu syniadau rhagdybiedig eu hunain o rolau'r ddau ryw;
- bod disgyblion yn cael eu hannog i fynd ar ôl pynciau a diddordebau llai confensiynol, er enghraifft merched i ddarllen mwy o lyfrau ffeithiol a bechgyn i ddarllen mwy o ffuglen; merched i ddatblygu diddordebau mecanyddol a bechgyn i ddilyn sgiliau creadigol.

7 Anabledd

7.1 Mae'r ysgol yn ymrwymedig i ddiwallu anghenion disgyblion ag anableddau, fel y mae i ddiwallu anghenion pawb o fewn yr ysgol. Ymdrecha'r ysgol i gyfarfod gofynion Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995, fel y'i haddaswyd gan Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 2005. Caiff pob cam rhesymol ei gymryd i sicrhau nad yw disgyblion anabl yn cael eu gosod dan unrhyw anfantais o'i gymharu â disgyblion nad ydynt yn anabl. Mae'r ddeddfwriaeth yn datgan y gallai pobl ag anableddau gael eu trin yn fwy ffafriol a dylid ystyried y gofyniad hwn.

7.2 Mae'r ysgol wedi ymrwymo i ddarparu amgylchedd sy'n caniatáu mynediad llawn i ddisgyblion anabl i bob ardal ddysgu neu wasanaethau cysylltiedig a ddarperir, neu a gynigir, i ddisgyblion yn yr ysgol, gan gynnwys ymweliadau addysgol a gweithgareddau eraill oddi ar safle'r ysgol, e.e. nofio.

7.3 Bydd athrawon yn addasu dysgu ac addysgu fel bo'n briodol ar gyfer disgyblion ag anableddau. Er enghraifft, gallai fod angen rhoi amser ychwanegol i gwblhau rhai gweithgareddau neu addasu defnyddiau dysgu neu gynnig gweithgareddau amgen lle bo disgyblion yn methu trin offer.

8 Crefydd / Cred

8.1 Mae'r ysgol yn parchu credoau ac arferion crefyddol yr holl staff, disgyblion ac ymwelwyr a bydd yn cydymffurfio â'r holl geisiadau rhesymol sy'n ymwneud ag ymlyniad ac arfer crefyddol. Mae hyn yn cynnwys parch at ddiffyg crefydd neu gred, e.e. dyneiddiaeth ac anffyddiaeth.

9 Tueddfryd Rhywiol

9.1 Ni fydd yr ysgol yn gwneud unrhyw dybiaeth am dueddfryd rhywiol aelodau o'i chymuned.

9.2. Yn y cwricwlwm, addysgir rhywioldeb o fewn cyd-destun perthnasoedd cariadus. Tra mai perthnasoedd heterorywiol yw'r mwyaf cyffredin yn ein cymdeithas ni, cydnabyddwn y bydd nifer fechan ond cymharol arwyddocaol o'n disgyblion yn datblygu tueddfryd cyfunrywiol (gwrwgydiol/lesbiaidd) neu ddeurywiol ac yn ystod eu datblygiad bydd llawer yn dal i gwestiynu eu tueddfryd rhywiol. Caiff cwestiynau disgyblion eu hateb wrth iddynt godi, yn onest, yn ffeithiol a heb farnu.

9.3 Mae galw enwau difrïol (o unrhyw fath) yn annerbyniol.

10 Oedran

10.1 Bydd yr ysgol yn rhoi gweithdrefnau yn eu lle i sicrhau na wrthodir swydd i unrhyw un, cyfle hafal i hyfforddi neu gael dyrchafiad ac nad yw unrhyw un yn dioddef o aflonyddu neu erledigaeth oherwydd eu hoedran.

11 Swyddogaeth y llywodraethwyr

11.1 Yn y datganiad polisi hwn mae'r corff llywodraethu wedi gosod allan ei ymrwymiad i gyfle cyfartal a bydd yn parhau i wneud popeth posibl i sicrhau bod holl aelodau'r gymuned ysgol yn cael eu trin yn deg ac yn hafal.

11.2 Bydd y corff llywodraethu yn sicrhau nad oes gwahaniaethu anghyfreithiol yn erbyn unrhyw un tra yn yr ysgol ar sail eu hil, rhyw, crefydd neu gred, anabledd, oedran na thueddfryd rhywiol.

12 Swyddogaeth y Pennaeth

12.1 Bydd y pennaeth yn sicrhau bod polisi'r ysgol ar gyfle cyfartal yn cael ei weithredu, a'i fod yn cael ei gefnogi yn hynny o beth gan y corff llywodraethu.

12.2 Bydd y pennaeth yn sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'r polisi ysgol ar gyfle cyfartal a bod athrawon yn cymhwyso'r canllawiau hyn yn deg ym mhob sefyllfa.

12.3 Bydd y pennaeth yn sicrhau bod yr holl baneli apwyntio yn rhoi ystyriaeth ddyledus i'r polisi hwn fel nad oes neb yn dioddef o wahaniaethu.

12.4 Bydd y pennaeth yn hybu egwyddorion cyfle cyfartal wrth ddatblygu'r cwricwlwm ac wrth ddarparu cyfleoedd ar gyfer hyfforddi.

12.5 Bydd y pennaeth yn hybu parch at bobl eraill ym mhob agwedd o fywyd ysgol; mewn cynulliadau, er enghraifft, bydd parch at bobl eraill yn thema reolaidd a bydd hefyd yn amlwg ar arddangosfeydd o amgylch yr ysgol.

12.6 Bydd y pennaeth yn rhoi ystyriaeth ddyledus i driniaeth annheg.

13 Swyddogaeth yr athrawon

13.1 Bydd athrawon dosbarth yn adnabod eu rhagfarnau eu hunain ac yn sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn cael eu trin yn deg a chyda pharch. Ni fydd yr ysgol yn gwahaniaethu yn fwriadol yn erbyn unrhyw blentyn/person ifanc, rhiant neu ymwelydd a bydd yn ceisio'n

weithredol i adnabod a chael gwared â gwahaniaethu anuniongyrchol. Nid yw anwybodaeth o'r hyn yw gwahaniaethu yn amddiffyniad yn erbyn honiad.

13.2 Wrth ddethol defnyddiau ystafell ddosbarth, bydd athrawon yn ymdrechu i ddarparu adnoddau sy'n rhoi delweddau cadarnhaol ac sy'n herio delweddau stereoteip o grwpiau lleiafrifol.

13.3 Wrth gynllunio cynlluniau gwaith, bydd athrawon yn ystyried y polisi cyfle cyfartal, o ran dewis pynciau i'w hastudio ac o ran sut i ymdrin â materion sensitif. Er enghraifft, dylai testunau Hanes gynnwys enghreifftiau o'r cyfraniad arwyddocaol a wnaed gan ferched; mewn Daearyddiaeth, dylid gwneud ymdrechion i wrthwynebu delweddau stereoteip o Affrica ac Asia ac i ddangos amrywiaeth gwirioneddol datblygiad mewn gwahanol rannau o'r byd.

13.4 Bydd yr holl athrawon a staff yn herio unrhyw ddigwyddiadau o ragfarn neu wahaniaethu ac yn tynnu sylw'r pennaeth atynt.

14 Swyddogaeth y disgyblion

14.1 Bydd y disgyblion yn ymwybodol o'r polisi ac yn tynnu sylw'r athro dosbarth ac/neu'r pennaeth at unrhyw ddigwyddiadau o ragfarn neu wahaniaethu.

15 Swyddogaeth y rhieni

15.1 Gwneir y rhieni yn ymwybodol o'r polisi trwy brosbectws yr ysgol a'r cytundebcartref-ysgol a disgwylir iddynt dynnu sylw'r athro dosbarth neu'r pennaeth at unrhyw ddigwyddiadau o ragfarn neu wahaniaethu.

16 Swyddogaeth ymwelwyr / contractwyr

16.1 Gofynnir i'r holl ymwelwyr a chontractwyr gadw at y polisi ysgol.

17 Monitro / Adolygu

17.1 Mae'r corff llywodraethu yn gyfrifol am fonitro effeithiolrwydd y polisi hwn. Bydd y llywodraethwyr felly yn:

- monitro cynnydd disgyblion o'r grwpiau lleiafrifol, gan ei gymharu â'r cynnydd a wneir gan ddisgyblion eraill yn yr ysgol;
- monitro'r broses apwyntio staff fel nad oes unrhyw un sy'n ymgeisio am swydd yn yr ysgol yn cael ei (g)wahaniaethu yn ei (h)erbyn;
- gofyn i'r pennaeth adrodd i'r llywodraethwyr yn flynyddol ar effeithiolrwydd y polisi hwn;
- cymryd i ystyriaeth ddifrifol unrhyw gwynion oddi wrth ddisgyblion, rhieni, staff neu ymwelwyr ynglŷn â chyfle cyfartal;
- monitro polisi ymddygiad yr ysgol, a'r nifer o waharddiadau, i sicrhau nad yw disgyblion
- grwpiau lleiafrifol yn cael eu trin yn annheg.

17.2 Adolygir y polisi hwn gan y corff llywodraethu yn flynyddol.

	Enw	Llofnod	Dyddiad
Cadeirydd y Llywodraethwyr	Mr Tudur Jones		Tachwedd 2023
Pennaeth	Mrs Laurel Davies		Tachwedd 2023

Dyddiad Adolygu	Tachwedd 2024